# Ffermdy'r Garreg Fawr (33)



**Beth yw e?**

- Ffermdy o Waunfawr, Gwynedd, a adeiladwyd ym 1544.

**Pwy oedd yn byw yma?**

- Nid ydym yn gwybod pwy oedd yn byw yma, ond mae'n debygol eu bod yn deulu cefnog.

**Ffeithiau difyr**

- Roedd William Morgan, a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg, yn byw mewn tŷ tebyg iawn i hwn.
- Mae enw'r ffermdy yn cyfeirio at ddarn o garreg frig fawr tu ôl i safle gwreiddiol y tŷ.
- Darnau mawr o lechfaen a chlogfeini o'r mynydd a ddefnyddiwyd i adeiladu'r tŷ, gyda tho llechi.
- Sylwch ar y ffenestri heb wydr. Defnyddiwyd caeadau coed derw i gau'r oerfel allan. Roedd y tŷ'n dywyll iawn oherwydd hyn.
- Mae gan y tŷ ddwy simnai. Roedd simneiau'n cael eu hystyried yn arwydd o statws yn ystod cyfnod y Tuduriaid, ac roedd dwy ohonyn nhw'n arwydd o gyfoeth. Roedd gan y rhan fwyaf o dai'r cyfnod le tân canolog, a byddai'r mwg yn dianc drwy'r ffenestri.

**Am ragor o wybodaeth?**

- Ewch i Hendre'r-ywydd Uchaf (rhif 7) i weld enghraifft o dŷ cynharach o cyfnod y Tuduriaid.